

## **Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), ar ran y Comisiwn Dŵr Annibynnol (y Comisiwn), yn defnyddio eich data personol pan fyddwch yn cymryd rhan ym mhroses yr alwad am dystiolaeth.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn, e-bostiwch [cfe.water@defra.gov.uk](mailto:cfe.water@defra.gov.uk).

Rydym yn defnyddio [Citizen Space](#) i gynnal ein hymgyngoriadau a'n hymarferion galwad am dystiolaeth.

### **Pwy fydd yn casglu eich data personol**

Defra fydd rheolydd unrhyw ddata personol a gesglir fel rhan o'r alwad am dystiolaeth:

Department for Environment, Food and Rural Affairs  
Seacole Building  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am y ffordd y bydd Defra, ar ran y Comisiwn, yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau cysylltiedig, gallwch gysylltu â rheolwr diogelu data Defra yn [data.protection@defra.gov.uk](mailto:data.protection@defra.gov.uk) neu yn y cyfeiriad uchod.

Swyddog diogelu data Defra sy'n gyfrifol am sicrhau bod Defra yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Gallwch gysylltu â'r swyddog diogelu data yn [DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk](mailto:DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk) neu yn y cyfeiriad uchod.

### **Pa ddata personol y byddwn yn eu casglu a sut y cânt eu defnyddio**

Caiff eich data personol eu casglu fel rhan o alwad am dystiolaeth y Comisiwn er mwyn i'r Comisiwn allu cysylltu â chi os bydd ganddo unrhyw gwestiynau pellach am y dystiolaeth y byddwch wedi'i chyflwyno. Bydd eich data personol ac adnabyddadwy ar gael i unigolion sy'n gweithio i'r Comisiwn.

Caiff y data personol canlynol eu casglu at y diben hwn:

- Eich enw
- Eich sefydliad
- Eich manylion cyswllt
- Eich barn a'ch safbwyntiau
- Unrhyw ddata personol y byddwch yn eu rhoi o'ch gwirfodd drwy dystiolaeth yn eich ymateb i'r alwad am dystiolaeth. Peidiwch â chyflwyno data personol yn eich ymateb y gellid eu defnyddio i adnabod unigolion eraill.

Bydd y Comisiwn yn ystyried eich ymateb, cyn belled ag y bo modd, gyda'r holl ymatebion eraill i'r alwad am dystiolaeth. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth fel rhan o'i adroddiad interim a'i adroddiad terfynol; ni fydd hyn yn cynnwys data personol. Mae'n bosibl y caiff fersiwn ddienw o'ch ymateb hefyd ei chyhoeddi mewn rhestr o ymatebion ac mewn unrhyw adroddiadau dilynol gan y Comisiwn.

Os byddwch yn cydsynio ac yn rhoi manylion cyswllt, efallai y bydd y Comisiwn yn cysylltu â chi yn uniongyrchol i'ch gwahodd i rannu eich barn, eich safbwyntiau a'ch profiadau mewn ymateb i ymgynghoriad neu ymarfer galwad am dystiolaeth newydd neu ddilynol.

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, esboniwch pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a roddir gennych yn gyfrinachol.

Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd modd cynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd a luniwyd yn awtomatig gan eich system Technoleg Gwybodaeth ei drin fel un sy'n ein rhwymo ni.

### **Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol**

Ceir dwy sail gyfreithlon mewn cyfraith diogelu data sy'n berthnasol i ddefnydd y Comisiwn o'ch data personol ar gyfer yr ymarfer galwad am dystiolaeth:

1. Eich cydsyniad;
2. Tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd – gall hyn fod yn berthnasol ar adeg tra bydd y data'n cael eu prosesu, pan nad cydsyniad fydd y sail gyfreithlon dros eu prosesu mwyach, er enghraifft pan fydd eich data personol wedi cael eu hymgorffori yn y dadansoddiad ac na fydd modd eu hadnabod mwyach.

Pan gaiff eich data personol eu prosesu yn seiliedig ar gydsyniad, bydd modd i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl fel arfer, a gofyn am i'ch data personol gael eu dileu. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio [cfe.water@defra.gov.uk](mailto:cfe.water@defra.gov.uk).

Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu tynnu eich cydsyniad yn ôl pan fydd y Comisiwn wedi ymgorffori eich data personol yn y dadansoddiad ac na fydd modd eu hadnabod mwyach.

### **Pwy y bydd Defra, ar ran y Comisiwn, yn rhannu eich data personol â nhw**

Mae'n bosibl y caiff eich data, gan gynnwys unrhyw ddata personol, eu rhannu â thimau eraill o fewn Defra a Llywodraeth Cymru sy'n helpu i ddadansoddi ymatebion i alwadau am dystiolaeth.

Efallai y caiff eich data, gan gynnwys unrhyw ddata personol, hefyd eu rhannu â darparwr trydydd parti, un arall o adrannau'r llywodraeth neu sefydliad arall, a all ddadansoddi a chrynhoi ymatebion ar ran y Comisiwn a defnyddio technoleg megis deallusrwydd artiffisial i wneud hynny. Byddant yn ddarostyngedig i siarter gwybodaeth personol Defra a chytundeb rhannu data lefel gwasanaeth.

Bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Ni fyddant yn cynnwys eich gwybodaeth mewn ymateb i gais oni fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

### **Am faint o amser y bydd Defra yn cadw eich data personol?**

Bydd Defra, ar ran y Comisiwn, yn cadw eich data personol drwy gydol y cyfnod adolygu (Hydref 2024 – Mehefin 2025). Ar ôl i'r Comisiwn gael ei ddiddymu, bydd Defra yn cadw eich data personol am hyd at dair blynedd.

Ar ddiwedd y comisiwn, bydd y dystiolaeth y bydd y Comisiwn Dŵr Annibynnol wedi'i chasglu ar gael i Defra a Llywodraeth Cymru ei defnyddio wrth roi argymhellion y Comisiwn ar waith a/neu mewn gwaith arall gan Defra a Llywodraeth Cymru.

### **Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn rhoi data personol?**

Ni fyddwn yn gallu casglu eich barn, eich safbwyntiau a'ch profiadau. Ni fyddwch yn gallu cyfrannu at nodau penodol yr ymgynghoriad neu'r ymarfer galwad am dystiolaeth.

### **Defnydd o brosesau gwneud penderfyniadau awtomatig neu broffilio**

Ni chaiff y data a roddir gennych eu defnyddio ar gyfer:

- gwneud penderfyniadau awtomatig (gwneud penderfyniadau drwy dulliau awtomatig heb i bobl fod yn rhan o'r broses)
- proffilio (prosesu eich data personol yn awtomatig er mwyn gwerthuso pethau penodol ynglŷn ag unigolyn)

### **Trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r DU**

Dim ond i wlad arall y tybir ei bod yn ddigonol at ddibenion diogelu data y byddwn yn trosglwyddo eich data personol.

### **Eich hawliau**

Yn seiliedig ar y prosesu cyfreithlon uchod, mae eich hawliau unigol fel a ganlyn:

#### **Cydsyniad**

- [yr hawl i gael gwybod](#)
- [hawl mynediad](#)
- [yr hawl i gywiro](#)
- [yr hawl i ddileu](#)
- [yr hawl i gyfyngu ar brosesu](#)
- [yr hawl i gludadwyedd data](#)
- [hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomatig a phroffilio](#)

#### **Tasg gyhoeddus**

- [yr hawl i gael gwybod](#)
- [hawl mynediad](#)
- [yr hawl i gywiro](#)
- [yr hawl i gyfyngu ar brosesu](#)
- [yr hawl i wrthwynebu](#)
- [hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomatig a phroffilio](#)

Mae gwybodaeth am eich hawliau unigol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018), ar gael ar [wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Cwynion**

Mae gennych hawl i [wneud cwyn](#) i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw bryd.

## **Siarter gwybodaeth bersonol**

Mae [siarter gwybodaeth bersonol](#) Defra yn esbonio mwy am eich hawliau dros eich data personol.